Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymraeg Tirdeunaw
# Heol Ddu
# Treboeth
# Abertawe
# SA5 7HP

## Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2015

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 22/05/2015**

## Cyd-destun

Ysgol Gynradd benodedig Gymraeg yw Ysgol Tirdeunaw, sydd wedi ei lleoli Yn Nhreboeth ar gyrion dinas Abertawe. Mae'r ysgol yn cael ei chynnal gan awdurdod lleol dinas a sir Abertawe. Mae 460 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, a chânt eu haddysgu mewn un ar bymtheg o ddosbarthiadau. Mae tua 27% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Mae tua 16% o'r disgyblion ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol, ac mae wyth â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Tua 7% o'r disgyblion sy'n dod o gartrefi lle y siaredir y Gymraeg. Ychydig iawn o blant sydd yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol. Mae tua 2% o'r disgyblion yn dod o gefndiroedd lleiafrif ethnig. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt.

Cychwynnodd y pennaeth presennol yn ei swydd ym mis Medi 2013 ac mae pennaeth cynorthwyol wedi ei benodi tra bod y dirprwy ar secondiad. Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf yn Ionawr 2011.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Gymraeg Tirdeunaw yn 2014-2015 yw £2,976. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd yn Abertawe yw £7,839 a'r lleiafswm yw £2,665. Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Tirdeunaw yn y 73ydd safle o'r 80 ysgol gynradd yn sir Abertawe o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- Llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn ystod eu hamser yn yr ysgol
- Safonau disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gyson dda o ran cyrraedd y deilliant disgwyliedig mewn medrau iaith a datblygiad mathemategol
- Safonau disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 hefyd yn gyson dda o ran cyrraedd y lefel disgwyliedig ym mhob pwnc a asesir
- Llawer o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau meddwl a datrys problemau yn effeithiol
- Medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn datblygu'n dda
- Aelodau'r grŵp 'Enfys' yn fodelau effeithiol trwy sicrhau bod cyd-ddisgyblion yn teimlo'n hapus o fewn amgylchedd yr ysgol ac yn medru troi at gymorth cyfoedion a staff fel bo'r angen
- Disgyblion yn gwrtais, yn ymddwyn yn dda ac yn dangos brwdfrydedd a mwynhad at ddysgu
- Yr addysgu'n dda ar draws yr ysgol ac yn sicrhau bod disgyblion o gefndir difreintiedig yn cael eu hysgogi'n effeithiol er mwyn gwneud cynnydd

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- Gan arweinwyr yr ysgol weledigaeth a ffocws clir ar godi safonau
- Arweinwyr yn sicrhau darpariaeth ysgogol ar gyfer disgyblion o gefndir difreintiedig
- Arweinwyr wedi sefydlu rhaglen effeithiol iawn o gefnogaeth i ddisgyblion bregus a'u teuluoedd
- Defnydd da o arbenigedd gwahanol aelodau o staff
- Staff yn gweithio'n agos fel tîm ac yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau'n effeithiol
- Sylw priodol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol
- Hunanarfarnu'r ysgol yn adnabod cryfderau'r ysgol yn dda
- Amrediad eang o bartneriaethau defnyddiol sy'n cyfrannu'n effeithiol tuag at gyfoethogi'r ddarpariaeth a'r gofal

## Argymhellion

A1 Codi safonau disgyblion mwy abl

A2 Darparu tasgau sy'n herio'r disgyblion mwy abl yn fwy cyson

A3 Darparu mwy o gyfleoedd i ysgrifennu'n estynedig yn Saesneg ar draws y cwricwlwm

A4 Cryfhau gallu'r corff llywodraethol i herio'r ysgol

A5 Sicrhau bod yr adroddiadau hunanarfarnu yn fwy miniog ac yn adnabod y materion i'w cryfhau yn well er mwyn eu cynnwys yn llawn yn y cynllun gwella

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Wrth gychwyn yn yr ysgol, mae medrau llawer o'r disgyblion yn isel. Fodd bynnag, erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, ac mewn gwersi, mae llawer yn gwneud cynnydd da. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau meddwl yn bwrpasol, er enghraifft trwy ddatrys problemau mathemategol yn ymwneud â thema teithio'r tymor. Fodd bynnag, nid yw disgyblion mwy galluog bob amser yn cyflawni gystal ag y gallent.

Mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn gwrando'n dda ac yn ymateb yn ystyrlon. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer yn datblygu medrau llafar effeithiol yn y Gymraeg er mwyn cyfleu gwybodaeth syml. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn hyderus wrth fynegi barn yn y ddwy iaith. Maent yn addasu sgwrs yn briodol gan ddangos eu bod yn deall y gwahaniaethau rhwng sgwrs anffurfiol ymhlith ffrindiau a sgwrs fwy estynedig a ffurfiol.

Mae disgyblion yn adnabod seiniau ac yn dechrau adeiladu geiriau o oedran cynnar iawn. Maent yn adeiladu'n llwyddiannus ar y medrau hyn gan ddarllen geiriau anghyfarwydd a dangos brwdfrydedd at y testun ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Erbyn cyrraedd brig yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn y Gymraeg a Saesneg yn gyfystyr a'u hoedran ac yn newid goslef y llais yn dda. Maent yn trafod ystod o ddeunydd darllen yn aeddfed ac yn mynegi barn am eu hoff awduron.

Mae medrau ysgrifennu llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda ar draws yr ysgol. Mae llawysgrifen llawer o ddisgyblion yn daclus ac maent yn datblygu'n hyderus wrth ysgrifennu'n annibynnol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn ysgrifennu'n ddiddorol wrth greu storïau a thaflenni ffeithiau o safon dda. Maent yn datblygu medrau sillafu yn llwyddiannus ac yn gyffredinol yn defnyddio atalnodi yn gywir. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer yn dangos ymwybyddiaeth gadarn o wahanol ffurfiau ysgrifennu, gan ddefnyddio'r nodweddion hyn yn hyderus ar draws ystod o bynciau; er enghraifft, wrth ysgrifennu adroddiadau yn y Gymraeg am fywyd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae llawer o'r disgyblion hŷn yng nghyfnod allweddol 2 yn gwneud cynnydd da yn eu hysgrifennu estynedig yn y Gymraeg. Fodd bynnag, nid yw eu gallu i ysgrifennu'n estynedig yn y Saesneg yn ddigon datblygedig ac, o ganlyniad, mae hyn yn cael effaith ar allu'r disgyblion i gyrraedd y lefelau uwch.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'u medrau rhifedd yn effeithiol mewn gweithgareddau amrywiol ar draws y meysydd dysgu. Gallant weithio'n llwyddiannus gyda phartner i ddatrys problemau adio, tynnu a lluosi. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio unedau safonol i fesur, er enghraifft wrth iddynt amcangyfrif a mesur taldra unigolyn.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan y rhan fwyaf afael sicr ar ystod briodol o fedrau rhifedd. Maent yn defnyddio ystod eang o strategaethau priodol i ddatrys problemau rhif yn llwyddiannus. Mae disgyblion yn defnyddio medrau rhifedd yn effeithiol ar

draws y cwricwlwm, er enghraifft, wrth wneud gwaith thema ar deithio a chymharu tymheredd Cymru a gwlad dramor. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 mae'r rhan fwyaf yn defnyddio geirfa fathemategol briodol i'r dasg, gyda llawer yn gwirio canlyniadau i ystyried os ydynt yn rhesymol. Mae'r disgyblion mwyaf abl yn defnyddio fformiwlâu i fesur arwynebedd trionglau a phetryalau yn llwyddiannus.

Mae safonau disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gyson dda o ran cyrraedd y deilliant 5 disgwyliedig mewn medrau iaith a datblygiad mathemategol. Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae'r perfformiad yn y meysydd hyn yn gosod yr ysgol yn y 50% uwch neu well o gymharu ag ysgolion tebyg. Fodd bynnag, nid yw perfformiad disgyblion ar y deilliant 6 mor gryf ac maent yn y chwarteli isaf yn gyson.

Mae safonau disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 hefyd yn gyson dda o ran cyrraedd y lefel 4 ddisgwyliedig ym mhob pwnc a asesir. Dros gyfnod o bedair blynedd, mae'r perfformiad yn y pynciau hyn yn gosod yr ysgol yn y 50% uwch neu well o gymharu ag ysgolion tebyg. Fodd bynnag, nid yw perfformiad disgyblion ar lefel 5 mor gryf, gan osod yr ysgol yn y chwarteli isaf yn gyson..

Yn gyffredinol, mae disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn perfformio'n debyg i'w cyfoedion o ran cyrraedd deilliant 5 neu gyrraedd y lefel 4 ddisgwyliedig. Fodd bynnag, mae perfformiad disgyblion ar ddeilliant 6 neu'r lefel 5 uwch yn llawer is na'u cyfoedion yn gyson.

Mae merched yn y Cyfnod Sylfaen yn gyson yn perfformio'n well na bechgyn o ran cyrraedd deilliant 5 a'r deilliant 6 uwch mewn Cymraeg a mathemateg. Darlun tebyg iawn sydd ar ddiwedd cyfnod allweddol dau gyda merched yn perfformio'n gyson well o ran cyrraedd lefel 4 yn y pedwar pwnc a asesir. Yn gyffredinol, ar y lefel 5 uwch, mae merched yn perfformio'n well na bechgyn o ran iaith ond mae'r bechgyn yn well mewn gwyddoniaeth.

Mae'r bron pob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n dda ac yn gwneud cynnydd yn erbyn eu targedau personol.

**Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel, ac mae'r rhan fwyaf yn deall pwysigrwydd ymarfer corff a ffordd iach o fyw. Mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth dda iawn o'r peryglon sy'n gysylltiedig â defnydd o'r rhyngrwyd ac yn gwybod beth i'w wneud i aros yn ddiogel ar-lein. Mae gan ddisgyblion ymdeimlad cryf o barch, gofal a phryder tuag at eraill. Mae aelodau'r grŵp 'Enfys' yn fodelau effeithiol o ymddygiad ar gyfer disgyblion eraill yn yr ysgol. Maent yn sicrhau bod cyd-ddisgyblion yn teimlo'n hapus yn yr ysgol ac yn medru troi at gymorth cyfoedion a staff fel bo'r angen. Mae'r gofal hwn yn un o gryfderau'r ysgol.

Mae bron pob un disgybl yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol. Mae'r disgyblion yn mwynhau'r cyfleoedd i weithio yn yr ardal allanol ac yn gwneud hyn yn ddiogel. Maent yn gyson yn dangos brwdfrydedd a mwynhad at ddysgu, gan weithio'n annibynnol. Mae llawer yn canolbwyntio'n dda am gyfnodau estynedig ac yn gwybod beth sydd angen ei wneud er mwyn gwella eu gwaith.

Mae llais y disgybl yn gryfder amlwg yn yr ysgol ac yn dylanwadu'n effeithiol ar ethos a'r adnoddau sydd ar gael. Mae penderfyniadau'r Cyngor Ysgol yn dylanwadu'n gadarnhaol ar fywyd a gwaith yr ysgol, er enghraifft trwy gynllunio'r llyfrgell newydd ac archebu'r llyfrau. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos ystod dda o fedrau cymdeithasol a bywyd, ac mae disgyblion hŷn yn awyddus i gymryd cyfrifoldebau ychwanegol; er enghraifft, maent yn gweithredu fel cyfeillion i gynorthwyo disgyblion iau.

Mae presenoldeb disgyblion yr ysgol yn anghyson iawn ac yn amrywio o'r 25% isaf i'r 25% uchaf dros bedair blynedd.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod o brofiadau dysgu cyfoethog ac amrywiol sy'n hybu diddordeb a chymhelliant disgyblion. Mae'r ysgol hefyd yn atgyfnerthu profiadau dysgu disgyblion yn effeithiol drwy drefnu ymwelwyr ysgogol. Er enghraifft gwahoddwyd Dewi Pws i agor y llyfrgell newydd ac ysbrydolwyd y disgyblion i wneud defnydd cyson o'r ddarpariaeth. Maent yn darparu cyfleoedd pwrpasol ac effeithiol i annog annibyniaeth a medrau meddwl disgyblion.

Mae'r ysgol yn cynllunio cwricwlwm diddorol sy'n bodloni'r gofynion statudol. Mae'r athrawon yn cynllunio'n llwyddiannus ar gyfer datblygu medrau disgyblion wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ohonynt yn cynllunio gweithgareddau llawn dychymyg sy'n rhoi cyfle i ddisgyblion gymhwyso eu medrau llythrennedd ar draws y cwricwlwm. Mae'r athrawon hyn hefyd yn darparu cyfleoedd pwrpasol ac ymarferol i ddatblygu medrau rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm gyda phwyslais arbennig ar broblemau bywyd go iawn. Trwy waith thema ac ymweliadau â mannau diddorol, fel canolfan y barcud coch, mae'r disgyblion yn dangos brwdfrydedd at eu gwaith, ac yn cael eu hysbrydoli'n briodol ar gyfer ennyn diddordeb at y thema.

Mae'r Cwricwlwm Cymreig yn nodwedd bwysig yng nghynllunio'r ysgol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn ymfalchïo yn eu Cymreictod ac yn teimlo eu bod yn rhan werthfawr o'u cymuned. Caiff y disgyblion eu trwytho yn y diwylliant Cymreig ac mae'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg yn effeithiol. Mae elfennau o'r cwricwlwm Cymreig yn frith yn llyfrau'r disgyblion, ar declynnau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), ar arddangosfeydd, tu allan yn yr ardaloedd chwarae, yn y llyfrgell a'r stiwdio recordio.

Mae datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn cael eu hyrwyddo yn llwyddiannus trwy'r cwricwlwm a gwaith y cyngor ysgol ac eco. Mae'r ysgol wedi datblygu ardaloedd allanol ysgogol mewn cydweithrediad â'r rheolwr safle. Trwy hyn, mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd da i ddatblygu medrau garddio. Mae disgwyliadau uchel yr athrawon yn sicrhau bod y pwyllgor eco yn ddiwyd ac yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifri trwy ailgylchu, arbed ynni a chasglu gwastraff. Mae cyfleoedd priodol i hybu dealltwriaeth trwy brosiectau rhyngwladol ac mae'r gweithgareddau masnach deg cyson yn sicrhau bod disgyblion yn deall pwysigrwydd amodau teg i weithwyr mewn gwledydd tramor.

**Addysgu: Da**

Mae bron pob athro'n cydweithio'n effeithiol gyda'r staff cymorth i sicrhau bod llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da mewn gwersi. Mae'r addysgu drwy'r ysgol yn sicrhau bod disgyblion o gefndir difreintiedig yn cael eu hysgogi'n effeithiol er mwyn gwneud cynnydd yn llwyddiannus. Mae'r berthynas waith gefnogol rhwng staff a disgyblion yn sicrhau bod llawer o ddisgyblion yn teimlo'n hyderus i roi cynnig ar bethau newydd ac i ofyn am gymorth pan fo angen. Mae'r addysgu yn y Cyfnod Sylfaen yn sicrhau bod y disgyblion yn profi ehangder a chyfoeth o brofiadau perthnasol trwy gylch o weithgareddau buddiol yn y dosbarth a thu allan. Mae llawer o athrawon yn cynllunio gweithgareddau ysgogol ac yn defnyddio adnoddau TGCh yn effeithiol iawn i ennyn brwdfrydedd y disgyblion. Bron yn ddieithriad, mae'r addysgu yn cynnal diddordeb disgyblion ac yn sicrhau eu bod ar dasg. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth yn sicrhau bod y disgyblion mwy abl yn cael eu herio'n ddigon cyson ar draws yr ysgol.

Defnyddia llawer o athrawon gwestiynau penagored yn effeithiol i ddatblygu medrau meddwl disgyblion. Mae athrawon yn defnyddio strategaethau cadarnhaol yn llwyddiannus i reoli ymddygiad disgyblion ac i'w hannog i fod yn ddysgwyr annibynnol. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ysgrifennu'n ymestynnol yn Saesneg ar draws y cwricwlwm.

Mae athrawon yn marcio gwaith y disgyblion yn drwyadl ac yn rhoi sylwadau adeiladol iddynt ar sut i wella eu hymdrechion sy'n gysylltiedig â'r meini prawf llwyddiant. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ymateb i'r sylwadau er mwyn codi safonau. Mae disgyblion yn asesu eu gwaith ei gilydd yn gyson ac mae hyn yn cael effaith bositif ar eu dealltwriaeth o ddisgwyliadau'r athrawon.

Mae'r ysgol yn dadansoddi perfformiad disgyblion yn effeithiol ac yn tracio cynnydd yn fanwl. Mae gweithdrefnau asesu cymharol newydd yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar berfformiad bechgyn a merched a disgyblion mwy abl a thalentog.

Mae'r adroddiadau ysgrifenedig i rieni yn gynhwysfawr ac yn adrodd yn briodol ar gynnydd eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o bwysigrwydd iechyd a lles yn bwrpasol. Maent yn datblygu ffitrwydd y disgyblion yn llwyddiannus trwy gynnig ystod o weithgareddau mewn gwersi ac ar ôl ysgol. Mae'r ysgol hefyd yn gwneud trefniadau buddiol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ac yn sicrhau bod cyflenwad o ddŵr ar gael i bawb a chynnig dyddiol i brynu ffrwythau. Caiff holl bolisïau a gweithdrefnau'r ysgol eu hadolygu'n gyson a gweithredir hwy'n effeithiol i sicrhau datblygiad personol, ysbrydol, moesol a diwylliannol y disgyblion.

Mae yma hafan effeithiol a chymuned ofalgar lle teimla'r disgyblion yn ddiogel iawn. Mae'r staff yn adnabod anghenion lles y disgyblion yn arbennig o dda ac mae gan yr ysgol raglen effeithiol iawn o gefnogaeth i ddisgyblion bregus a'u teuluoedd. Mae hyn yn cynnwys ymweld â rhieni tu allan i'r ysgol.

Mae’r gefnogaeth sy’n cael ei chynnig gan yr ysgol yn yr ystafell ‘Enfys’, ac mewn partneriaeth gyda'r disgyblion ac asiantaethau allanol, i ddatrys problemau ymddygiad ac emosiynol disgyblion yn hynod effeithiol. Mae disgyblion yn siarad yn frwdfrydig ac yn aeddfed am y manteision y maent wedi eu derbyn trwy fynychu'r sesiynau yno. Ategir hyn gan rieni sydd hefyd yn elwa o’r ddarpariaeth. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar hunan-barch y disgyblion, at eu hagwedd at waith ac ar y berthynas rhwng yr ysgol a'r cartref. O ganlyniad, mae safonau'r disgyblion bregus a'r rhai sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn dda. Yn ddi-os, mae hyn yn un o gryfderau amlwg yr ysgol.

Mae darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol yn dda. Caiff anghenion y disgyblion eu hadnabod yn gynnar a darperir ar eu cyfer yn llwyddiannus. Mae’r cynlluniau addysg unigol yn fanwl ac mae cynnydd y disgyblion yn cael ei gofnodi’n drylwyr. Mae’r ysgol wedi llunio hunanarfarniad o’r ddarpariaeth ac, o ganlyniad, mae cyfeiriad clir i gynlluniau unigol pob disgybl. Fodd bynnag, nid yw’r ddarpariaeth eto wedi cael digon o effaith ar godi safonau disgyblion mwy abl.

Mae gweithdrefnau cadarn yn eu lle i sicrhau bod disgyblion yn ymwybodol o sut i gadw’n ddiogel wrth ddefnyddio’r rhyngrwyd. Mae gan yr ysgol bolisïau a gweithdrefnau cadarn o ran delio â gwahaniaethu, aflonyddwch a bwlio. Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos yr ysgol yn ofalgar a chynhwysol iawn ac mae yma gymuned groesawus, sy’n cyflawni gweledigaeth yr ysgol yn effeithiol. Mae’r ysgol wedi sicrhau’n llwyddiannus bod llais y disgybl yn greiddiol i holl weithgareddau’r ysgol. O ganlyniad, mae’r disgyblion yn datblygu ymagwedd aeddfed a chyfrifol sy’n eu hybu i gefnogi a helpu ei gilydd. Mae polisïau, cynlluniau a gweithdrefnau yn eu lle sy’n sicrhau cyfle cyfartal i bob disgybl ac sy’n hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth cymdeithasol ac mae’r rhain yn hysbys i rieni’r ysgol.

Mae adeilad a thir yr ysgol yn symbylus, lliwgar a deniadol ac yn cynnwys arddangosfeydd amrywiol o safon uchel. Mae staff a disgyblion yn gwneud defnydd llawn o’r adnoddau helaeth sydd ar gael iddynt. Mae’r safle yn ddiogel ac wedi cael ei ddatblygu’n dda gan ddilyn argymhellion y Cyngor Ysgol a’r Cyngor Enfys. Mae yma ardaloedd arbennig ar gyfer dysgu, chwarae ac ymlacio a chaiff y cyfan eu defnyddio’n bwrpasol i gynnig darpariaeth eang i’r disgyblion. O ganlyniad, mae ymddygiad disgyblion yn dda. Mae’r toiledau’n lân ac addas a chaiff yr holl safle ei gadw’n raenus. Fodd bynnag, tynnwyd sylw'r corff llywodraethol at fater lles sydd angen sylw.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan arweinwyr yr ysgol weledigaeth glir sy’n seiliedig ar ‘Annog Annibyniaeth, Bachu Brwdfrydedd a Chyfoethogi Cyfleoedd’. Llwyddant i gyfleu’r weledigaeth hon

yn effeithiol i'r staff, y disgyblion, y rhieni a'r llywodraethwyr. O ganlyniad, mae ffocws clir ar godi safonau a sicrhau bod disgyblion o gefndir difreintiedig yn cael eu hysgogi'n effeithiol ac yn gwneud cynnydd. Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar ac mae ganddi strwythurau pendant a pholisïau priodol ar gyfer sicrhau bod y weledigaeth yn treiddio'n llwyddiannus i bob agwedd ar fywyd yr ysgol.

Mae'r staff yn gweithio'n agos fel tîm ac yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau yn effeithiol. Mae'r ysgol yn ymateb yn gadarnhaol i nifer o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae prosesau cadarn yn eu lle i weithredu gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn bwrpasol. Mae egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn cael eu gweithredu'n fedrus. Yn bennaf, mae'r ysgol yn llwyddiannus iawn wrth ddarparu ar gyfer disgyblion difreintiedig.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn ac wedi ymrwymo i weledigaeth yr ysgol. Mae llywodraethwyr yn ymweld â'r ysgol yn anffurfiol yn gyson ac yn derbyn adroddiadau ar berfformiad a chyrhaeddiad disgyblion. Mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o flaenoriaethau'r ysgol ac maent yn gefnogol iawn o strategaethau'r ysgol tuag at gefnogi disgyblion bregus. Fodd bynnag, mae'r corff yn orddibynnol ar y wybodaeth maent yn ei derbyn oddi wrth arweinwyr ac nid yw'n herio'r ysgol yn ddigon effeithiol.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae arweinwyr yr ysgol wedi sefydlu rhaglen addas ar gyfer monitro ac arfarnu ystod eang o agweddau ar fywyd yr ysgol dros gyfnod o amser. Mae'r prosesau hunanarfarnu hyn yn gwneud defnydd cyson o dystiolaeth uniongyrchol fel arsylwi gwersi, craffu ar lyfrau, trafod gwaith gyda'r disgyblion a holi barn rhieni. Mae'r ysgol hefyd yn dadansoddi data yn gymwys ar y cyfan ac mae hyn yn dechrau cryfhau dealltwriaeth y staff o berfformiad grwpiau amrywiol o ddisgyblion.

Mae adroddiad hunan arfarnu'r ysgol yn cwmpasu ystod addas o dystiolaeth ar y cyfan sy'n cynnwys cyfraniad staff a barn disgyblion a'r rhieni. Mae'n nodi cryfderau'r ysgol yn dda. Fodd bynnag, nid yw'n adnabod yn ddigon manwl yr holl agweddau sydd angen eu gwella, yn enwedig mewn perthynas â chyflawniadau grwpiau o ddisgyblion. Mae'r adroddiad yn brin o ran effaith y gweithgaredd a nodir fel tystiolaeth ar y safonau neu'r ddarpariaeth.

Mae cysylltiad boddhaol rhwng yr adroddiad hunan arfarnu a'r cynllun gwella ysgol. Mae'r cynllun gwella presennol yn rhoi sylw teilwng i gyllid a chyfrifoldebau staff yn ogystal â therfynau amser priodol, meini prawf llwyddiant a thargedau meintiol. Fodd bynnag, nid yw'r targedau bob tro yn ddigon heriol er mwyn sicrhau bod perfformiad yr ysgol yn cymharu'n well ag ysgolion tebyg.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd yn erbyn llawer o argymhellion yr arolygiad blaenorol, ar wahân i sicrhau cynnydd pellach yng nghyfran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefelau uwch a chryfhau rôl y corff llywodraethol fel cyfaill beirniadol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus iawn gydag ystod addas o bartneriaid er mwyn gwireddu gweledigaeth yr ysgol. Mae perthynas effeithiol iawn rhwng yr ysgol a rhieni disgyblion bregus. Mae'r bartneriaeth hon yn sicrhau bod y disgyblion hyn yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwneud cynnydd da. Mae ychydig o rieni yn wirfoddolwyr darllen ac yn mynychu'r ysgol yn gyson i hybu medrau darllen y disgyblion. Ar hyn o bryd, prin yw'r gweithgareddau cymdeithasol nac addysgol ar gyfer cael rhieni i ymrwymo i waith yr ysgol.

Mae'r bartneriaeth rhwng yr ysgol a'r gymuned yn dda. Mae'r ysgol yn elwa o bartneriaeth agos gyda'r llyfrgell leol wrth sefydlu llyfrgell newydd yr ysgol. Mae côr yr ysgol yn perfformio'n aml yno ac mewn cartref henoed lleol. Mae'r disgyblion hefyd yn cyfrannu at lwyddiant eisteddfod leol, a chadw'r ardaloedd o amgylch yr ysgol yn daclus. Mae hyn yn datblygu hyder y disgyblion ac yn hyrwyddo'u balchder yn eu hardal leol.

Mae ystod ac ansawdd y trefniadau trosglwyddo ar gyfer y disgyblion hŷn i'r ysgol uwchradd yn dda. Maent yn cael eu paratoi'n drylwyr ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Mae'r ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus gydag ysgolion cynradd y dalgylch ac ysgolion cynradd eraill i rannu arfer dda mewn agweddau i leihau'r bwlch rhwng disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a'u cyfoedion. Mae'r ysgol hefyd yn gweithio'n bwrpasol gydag ysgolion eraill i safoni a chymedroli gwaith disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2. Mae dealltwriaeth athrawon o asesu yn cynyddu drwy hyn.

Mae'r ysgol wedi sefydlu nifer o bartneriaethau effeithiol gydag asiantaethau allanol yn gynnwys Barnados, tîm o amgylch y teulu a'r awdurdod lleol. Mae hyn yn cael effaith bositif ar les disgyblion. Enghraifft o hyn yw'r gefnogaeth a roddir i ddisgyblion a rhieni gan swyddog lles yr awdurdod lleol er mwyn gwella presenoldeb yr ysgol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro ac yn rheoli gwariant yn ofalus. Caiff staff ac adnoddau ariannol eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi blaenoriaethau ar gyfer codi safonau ac ehangu profiadau disgyblion. Gwna athrawon ddefnydd pwrpasol o'u hamser cynllunio, paratoi ac asesu, ac fe gaiff y trefniadau ar gyfer hyn eu rheoli'n dda. Mae cymhorthyddion yn cynnig cefnogaeth gadarn i grwpiau ymyrraeth ac fe gânt effaith gadarnhaol ar ddatblygiad a chyrhaeddiad disgyblion.

Defnyddir arbenigeddau staff i rannu arfer dda yn effeithiol. Er enghraifft, trwy ymweld â dosbarthiadau ei gilydd, maent wedi sicrhau cysondeb mewn asesu ar gyfer dysgu bron yn ddieithriad ar draws yr ysgol. Mae'r ysgol yn croesawu ysgolion cyfagos i weld arfer dda o ran defnyddio e-dechnoleg i ysbrydoli disgyblion ac mae hyn yn magu hyder y disgyblion wrth iddynt esbonio i oedolion yr hyn maent yn ei wneud.
Mae'r trefniadau rheoli perfformiad yn effeithiol ac mae'r staff i gyd yn elwa o hyfforddiant sy'n cael ei drefnu yn ôl anghenion unigolion a blaenoriaethau'r ysgol. Mae'r hyfforddiant hwn yn seiliedig ar ddeilliannau'r drefn rheoli perfformiad er mwyn dylanwadu'n gadarnhaol ar godi safonau, er enghraifft yr hyfforddiant ar ddatblygu

strategaethau llythrennedd Saesneg.  Mae’r holl staff yn cydweithio’n llwyddiannus er mwyn creu amgylchedd cynhwysol ac ysgogol ar gyfer y disgyblion.

Mae’r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol iawn o arian y grant amddifadedd trwy ddefnyddio cymorthyddion i gefnogi’r disgyblion hyn.  Mae’r gefnogaeth yn sicrhau bod y disgyblion yn perfformio yn debyg i’w cymheiriaid o ran cyrraedd y deilliant neu’r lefel ddisgwyliedig.  Mae defnydd pwrpasol iawn o’r arian yn cael ei wneud trwy ariannu darpariaeth yn yr ystafell ‘Enfys’, er mwyn datrys problemau ymddygiad ac emosiynol disgyblion.

Mae’r arweinwyr wedi sicrhau bod gan yr ysgol ystod eang o adnoddau dysgu a bod athrawon yn gwneud defnydd da a chyson ohonynt er mwyn codi safonau.  Enghraifft o hyn yw gorsaf radio’r ysgol sy’n cyfrannu’n dda at godi safonau llafar y disgyblion.  Anogir athrawon i baratoi llawer o adnoddau eu hunain.  Mae'r rhain o safon dda ac yn hybu ac ysgogi dysgu.  Mae adeiladau’r ysgol a’r mannau dysgu tu allan wedi cael eu datblygu i safon dda.

O ystyried y safonau da a gyflawnir, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6702231 - Y.G.G. TIRDEUNAW**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 460 | |
| Disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 28.7 | |
| Grŵp PYD | 4 | (24%<PYD<=32%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 56 | 53 | 55 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 91.1 | 92.5 | 90.9 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 56 | 53 | 55 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 94.6 | 94.3 | 92.7 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 23.2 | 30.2 | 10.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 4 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 56 | 53 | 55 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 92.9 | 94.3 | 90.9 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 25.0 | 37.7 | 10.9 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 4 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 56 | 53 | 55 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 92.9 | 94.3 | 92.7 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 30.4 | 64.2 | 9.1 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 4 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai’r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw’n ddigon trylwyr i’w chyhoeddi, os nad yw’n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae’r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy’n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6702231 - Y.G.G. TIRDEUNAW**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 460 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 28.7 | |
| Grŵp PYD | 4 | (24%<PYD<=32%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 49 | 37 | 39 | 50 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 93.9 | 91.9 | 89.7 | 90.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 1 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 49 | 37 | 39 | 50 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 93.9 | 91.9 | 89.7 | 90.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 2 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 30.6 | 21.6 | 20.5 | 24.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 4 | 4 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 49 | 37 | 39 | 50 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 93.9 | 91.9 | 87.2 | 90.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 2 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 24.5 | 13.5 | 20.5 | 14.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 2 | 4 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 49 | 37 | 39 | 50 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 93.9 | 94.6 | 89.7 | 96.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 2 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 38.8 | 21.6 | 23.1 | 22.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 3 | 4 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 49 | 37 | 39 | 50 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 93.9 | 94.6 | 89.7 | 94.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 2 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 26.5 | 18.9 | 23.1 | 20.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 3 | 4 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 126 | 126 | 0 | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 126 | 125 | 1 | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 99% | 1% | |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 126 | 126 | 0 | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 126 | 126 | 0 | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 126 | 126 | 0 | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 126 | 125 | 1 | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 99% | 1% | |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 126 | 126 | 0 | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 126 | 126 | 0 | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 126 | 126 | 0 | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 126 | 126 | 0 | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 125 | 124 | 1 | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 99% | 1% | |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 125 | 121 | 4 | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 97% | 3% | |
| | | 84% | 16% | |

## Ymateb i’r holiadur i rieni

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | responses Nifer o | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | disagree Anghytuno'n | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 81 | 64<br>79% | 17<br>21% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 81 | 62<br>77% | 19<br>23% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 80 | 62<br>78% | 18<br>22% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 80 | 57<br>71% | 23<br>29% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 80 | 53<br>66% | 26<br>32% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 46% | 45% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 78 | 56<br>72% | 22<br>28% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 80 | 62<br>78% | 18<br>22% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 63% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 79 | 46<br>58% | 31<br>39% | 0<br>0% | 1<br>1% | 1 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 81 | 52<br>64% | 28<br>35% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 58% | 33% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 81 | 50<br>62% | 27<br>33% | 4<br>5% | 0<br>0% | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 80 | 51<br>64% | 29<br>36% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs’. | 78 | 42<br>54% | 32<br>41% | 0<br>0% | 0<br>0% | 4 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child’s progress. | 81 | 47<br>58% | 31<br>38% | 3<br>4% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 49% | 40% | 8% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 79 | 46<br>58% | 32<br>41% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |

| | Number of responses Nifer o ymatebion | | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | Don't know Ddim yn gwybod | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 80 | | 46<br>57% | 31<br>39% | 1<br>1% | 0<br>0% | 2 | | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | | 45% | 39% | 7% | 2% | | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 80 | | 54<br>68% | 25<br>31% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | | 56% | 38% | 2% | 0% | | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 75 | | 46<br>61% | 22<br>29% | 0<br>0% | 0<br>0% | 7 | | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | | 43% | 33% | 4% | 1% | | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 80 | | 51<br>64% | 29<br>36% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | | 54% | 38% | 5% | 1% | | | |
| The school is well run. | 81 | | 53<br>65% | 28<br>35% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | | 61% | 32% | 3% | 2% | | | |

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Mr Maldwyn Ellis Pryse | Arolygydd Cofnodol |
| Ms Gwenda Easton | Arolygydd Tîm |
| Dr Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Mr David Kenneth Davies | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mrs Gwenan Davies-Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Ms Jackie James (Pennaeth) | Enwebai |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.